



Ministry
of Defence

ssce SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION WALES
CYMRU CYNORTHWYO PLANT MILWYR
YN YSGOLION CYMRU

funded by the MOD education support fund 2014/16




Service children in education in Wales

A study of available data on numbers and provision

Paratowyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru
Medi 2015

www.dataunitwales.gov.uk

 029 2090 9500

 enquiries@dataunitwales.gov.uk

Cynnwys

Cefndir.....	1
Dull.....	4
Canfyddiadau.....	5
Cofnodi nifer plant milwyr.....	5
Anawsterau allai godi ymhlith plant milwyr.....	6
Anawsterau allai godi yn yr ysgolion lle mae plant milwyr.....	7
Anawsterau y gallai ysgolion cynradd/uwchradd eu hwynebu.....	8
Anawsterau penodol i ysgolion unigol.....	8
Cymorth i blant milwyr.....	Error! Bookmark not defined.
Hyfforddiant ynglŷn â phlant milwyr.....	Error! Bookmark not defined.
Cyfamod Cymunedau'r Lluoedd Arfog.....	10
Syniadau ar gyfer y dyfodol.....	10
Crynodeb.....	12
Atodiad A – cwestiynau holi.....	13

Yn 2014, fe gyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) gais llwyddiannus i gronfa Gweinyddiaeth Amddiffyn San Steffan ar gyfer cymorth i blant milwyr yn yr ysgolion. Prif neges y cais hwnnw oedd bod prinder data am blant milwyr ac y byddai angen pennu ystadegau sylfaenol am nifer plant o'r fath a ble maen nhw yn ogystal â llunio adnodd a phecyn cymorth i ddarparwyr addysg ledled Cymru.

Gofynnodd WLGA i Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru gynnal ymchwil i'r data oedd ar gael yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd a'u cymharu. Awgrymodd canlyniadau'r ymchwil honno nad oedd llawer o wybodaeth ar gael. Gwyddid bod rhai ysgolion yn cyflawni gwaith yn y maes hwn a bod bwriad i gynnal arolwg o ysgolion i hel gwybodaeth am yr ymwybyddiaeth o faterion ac arferion cyfredol ynglŷn â chynorthwyo plant milwyr yn nhrefn addysg Cymru.

Dyma'r diffiniad o blant milwr ar gyfer y prosiect hwn:

- o plentyn a chanddo un neu ddau riant sydd yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd;
- o plentyn a chanddo un neu ddau riant sydd wedi gadael y lluoedd arfog dros y chwe blynedd diwethaf (hen filwyr);
- o plentyn a chanddo un neu ddau riant sydd yn y lluoedd arfog rhan-amser (gan fod mwy a mwy o filwyr rhan-amser yn gwasanaethu dramor).

Dim ond hyn a hyn o wybodaeth sydd ar gael am y lluoedd rhan-amser¹ ac, felly, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar blant mae eu rhieni naill ai yn y lluoedd arfog² neu newydd ymadael.

Data cyfredol

Fydd Gweinyddiaeth yr Amddiffyn ddim yn casglu data am blant milwyr, fel arfer. Y ffynhonnell fwyaf gwerthfawr o ran gwybodaeth am blant mae'u rhieni yn y lluoedd arfog yw'r Cyfrifiad achos bod galwedigaeth rhieni ac oedrannau plant ym mhob cartref wedi'u cofnodi. Mae staff y Cyfrifiad yn cyhoeddi gwybodaeth am bobl sydd yn y lluoedd arfog ac mae Tabl AF002 yn cynnwys enwau ac oedrannau pawb yn y cartref lle mae'r penteulu yn y lluoedd arfog. Fydd yr wybodaeth honno ddim yn nodi pob plentyn yn ôl pob tebyg, achos mai dim ond yr ardal lle mae'r penteulu'n gwasanaethu sydd wedi'i chofnodi.

¹ Dinasyddion sydd yn y lluoedd arfog rhan-amser ac a allai wasanaethu dramor yn rhan o'u rolau.

² Pobl sydd wedi gadael y lluoedd arfog dros y chwe blynedd diwethaf.

Mae **Tabl 1** yn dangos nifer y plant o dan 16 oed mewn cartrefi lle mae'r penteulu yn y lluoedd arfog yn ardal pob cyngor lleol yng Nghymru. Lle nad oes llawer o blant milwyr mewn ardal, mae manylion heb eu datgelu gan awgrymu bod dros 2,500 o blant o dan 16 oed mae o leiaf un o rieni'r cartref yn y lluoedd arfog. Does dim data am blant o oedran ysgol a does dim gwybodaeth am faint allai fod yn yr ysgolion nad yw cynghorau lleol yn eu cynnal.

Tabl 1: Nifer y plant o dan 16 oed mewn cartrefi lle mae'r penteulu yn y lluoedd arfog (AF002)

	All	with HRP in Armed Forces
Isle of Anglesey	11,890	185
Gwynedd	20,868	40
Conwy	19,063	96
Denbighshire	17,020	54
Flintshire	28,584	98
Wrexham	25,842	90
Powys	22,761	294
Ceredigion	11,165	-
Pembrokeshire	22,002	223
Carmarthenshire	33,026	109
Swansea	41,322	114
Neath Port Talbot	24,674	59
Bridgend	25,358	88
The Vale of Glamorgan	23,776	365
Cardiff	63,074	137
Rhondda Cynon Taf	44,325	143
Merthyr Tydfil	10,969	-
Caerphilly	34,831	101
Blaenau Gwent	12,474	-
Torfaen	17,204	-
Monmouthshire	16,213	99
Newport	29,400	72
Wales	555,841	2,486

-disclosure control applied

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (AF002)

Yn Lloegr, bydd pob ysgol yn cadw gwybodaeth am blant mae'u rhieni'n filwyr ac yn ei chyflwyno i Adran Addysg San Steffan. Y rheswm dros hynny yw bod cymhorthdal ar gael i helpu'r ysgolion i addysgu plant milwyr. Yn ôl data 2013/14, roedd tua 58,000 o blant yn ymwneud â chymhorthdal o'r fath yn Lloegr. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd rhyw 65,000 o blant o dan 16 oed lle roedd penteulu yn y lluoedd arfog. Mae hynny'n awgrymu bod modd defnyddio Cyfrifiad 2011 i amcangyfrif faint o blant milwyr sydd ym mro pob un o awdurdodau lleol Cymru.

Yn ôl y disgwyl, mae nifer plant milwr yn tueddu i amrywio o'r naill ardal i'r llall yn ôl ble mae canolfannau'r lluoedd arfog yng Nghymru. Mae **Ffigur 1** yn dangos map o'r canolfannau sy'n hysbys yn y wlad hon – nid pob canolfan sydd yma, ond rhai lle y bydd digon o deuluoedd yn ôl pob tebyg. Felly, dyma'r rhai mae modd eu hystyried ar gyfer yr ymchwil hon.

Ffigur 1: Canolfannau'r lluoedd arfog yng Nghymru i ddibenion yr ymchwil hon



Mae Cyfrifiad 2011 yn awgrymu bod tua 0.5% o'r boblogaeth yn blant milwr. Felly, fe fyddai'n ddoeth canolbwyntio ar yr ysgolion sy'n agos i brif ganolfannau'r lluoedd arfog.

Dyma'r awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil:

- Ynys Môn
- Sir Fynwy
- Sir Benfro
- Powys
- Bro Morgannwg

Dewiswyd yn yr ardaloedd hynny ysgolion oedd yn agos i ganolfannau'r lluoedd arfog. Roedd yn eu plith ysgolion Cymraeg a Saesneg uwchradd a chynradd fel ei gilydd. Cysylltwyd â 19 ysgol a gofyn iddyn nhw gymryd rhan yn yr ymchwil. Yn sgîl hynny, roedd modd trin a thrafod pedair o'r pum ardal a nodwyd ac roedd cydbwysedd rhesymol rhwng ysgolion uwchradd a chynradd. Yn anffodus, chytunodd mo'r un ysgol Gymraeg i gymryd rhan yn yr ymchwil, fodd bynnag.

Yn ôl yr ymchwil i ddata cyfredol, roedd yn amlwg y byddai mwy o wybodaeth ansoddol ei natur na gwybodaeth feintiol. Felly, cytunwyd i gynnal arolwg rhith ansoddol trwy holi pobl dros y ffôn.

Cysylltwyd â'r ysgolion oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil, a threfnu amser cyfleus ar gyfer holi cynrychiolydd dros y ffôn. Anfonwyd peth gwybodaeth iddyn nhw am y pynciau roedd bwriad i'w trafod, hefyd. Mae'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn **Annex A**.

Holwyd cynrychiolwyr yr ysgolion dros y ffôn rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ebrill 2015.

Amrywiodd hyd pob sgwrs dros y ffôn yn ôl yr atebion a roddwyd ond parodd y rhan fwyaf tua tri chwarter awr. Recordiwyd pob sgwrs a'i thrawsgrifio ar gyfer adolygu.

Canfyddiadau

Cofnodi nifer plant milwyr

Ystyr plentyn milwr, yn y bôn, yw plentyn a chanddo un neu ddau riant sydd yn y lluoedd arfog (y fyddin, yr awyrlu neu'r llynges). Gwyddai'r rhan fwyaf o ysgolion a holwyd faint o blant milwr oedd yno. Gwyddai pedair ysgol faint yn union oedd gyda nhw a gwyddai un yn fras faint o blant milwyr oedd ar y gofrestr. Amrywiai'r canrannau rhwng 10% a 30% o ddisgyblion yr ysgol.

Does dim gofyn i ysgolion Cymru gadw gwybodaeth am faint o blant milwyr sydd ar y gofrestr ac, felly, cofnodwyd gwybodaeth o'r fath trwy amryw ddulliau. Gwyddai pedair ysgol faint yn union o blant milwr oedd ar y gofrestr o ganlyniad i gofnodi'r wybodaeth yn ystod proses derbyn disgybl. Dywedodd tair o'r pedair ysgol honno eu bod yn defnyddio SIMS neu system debyg ar gyfer rheoli gwybodaeth. Dywedodd un ysgol ei bod yn cofnodi gwybodaeth trwy gyfrwng taenlenni a roddir ar gael i'r staff i gyd wedyn.

Gwyddai un ysgol yn fras faint o blant milwyr oedd ar y gofrestr trwy amcangyfrif y nifer hwnnw yn ôl y cyfathrebu â phlant a/neu eu rhieni. Roedd yr ysgol o'r farn y byddai'n anodd iddi ddiweddarau gwybodaeth o'r fath ac, felly, mae'n bwriadu newid ei ffurflen derbyn ysgolion fel y gall rhieni nodi eu bod yn filwyr trwy dicio blwch. Ychwanegir y manylion at system rheol gwybodaeth yr ysgol.

Roedd un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd heb wybod faint o blant milwr oedd yno. Roedd yr ysgol gynradd o'r farn bod hynny wedi digwydd am na châi gofnodi'r wybodaeth honno.

Dywedodd yr ysgol uwchradd ei bod wedi ymholi ond roedd yn anodd hel yr wybodaeth er y byddai o gymorth iddi yn ôl pob tebyg.

"Y gorchymyn yw na ddylwn wahaniaethu rhwng plant milwyr a phlant lleol."

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion heb nodi oedd rhieni'n filwyr parhaol, hen filwyr neu filwyr rhan-amser. Dim ond gan un o'r ysgolion a holwyd roedd y manylion hynny am fod cwestiwn perthnasol ar ffurflen y derbyn disgyblion a bod yr wybodaeth wedi'i chofnodi yn y system wedyn. Dywedodd y byddai rhai rhieni'n methu ag ateb y cwestiwn hwnnw, fodd bynnag. Gallai gwybodaeth o'r fath gael ei chyfleu'n anffurfiol weithiau, ond heb ei chofnodi'n safonol.

Roedd barn amrywiol gan yr ysgolion ynglŷn â pha mor anodd oedd casglu'r gwybodaeth. Roedd rhai o'r farn mai **"dim ond blwch ticio yw hwnnw, yn y bôn"** a dywedodd eraill y byddai'n anodd casglu a diweddarau'r wybodaeth, yn arbennig heb gwestiwn ar ffurflen derbyn disgyblion i'r ysgol.

Dywedodd tair ysgol y byddai o gymorth pe bai'r cynghorau lleol yn cofnodi'r wybodaeth honno'n rheolaidd **"...gan fod y plant wedi'u nodi'n rhai bregus bellach a dylai hynny fod yn hysbys"**. Dywedodd ysgol arall y byddai'r wybodaeth yn ddefnyddiol i ysgolion ond nid i gynghorau lleol achos nad oes plant milwyr ym mhob ysgol.

Yn aml, rhaid i blant milwyr symud i ysgol newydd yng nghanol tymor ac fe ddywedodd pob ysgol a holwyd fod hynny wedi digwydd weithiau. Mewn dwy ysgol gynradd, roedd tua 20 o blant wedi

"Ymunodd merch â Blwyddyn 2 y bore yma – dyma'r bumed ysgol mae hi wedi'i mynychu hyd yn hyn."

dechrau yno yng nghanol tymor. Y farn oedd na fyddai llawer o rybudd ynglŷn â'r trosglwyddo, yn aml. Dywedodd ysgolion fod hynny'n anodd gan y byddai plentyn yn cyrraedd heb fawr ddim rhybudd ac y byddai'n anodd trefnu'r cymorth priodol.

Nodwyd bod llawer o fynd a dod ymhlith plant milwyr wedi arwain at broblemau ynglŷn â chynnal safonau a disgyblaeth, yn ogystal â gofalu y byddai digon o adnoddau.

Anawsterau allai godi ymhlith plant milwyr

Dywedodd yr ysgolion a holwyd y gallai anawsterau penodol fod yn berthnasol i blant milwyr, er bod y rhan fwyaf o'r farn y byddai'r rheiny'n dibynnu ar bersonoliaeth ac amgylchiadau'r plentyn. Dywedodd un ysgol y gallai symud i rywle newydd fod yn gyffrous i blentyn hyderus ond y gallai godi ofn ar un mwy nerfus.

"Mae rhai plant yn hoffi symud o'r naill ysgol i'r llall, ond mae'n brofiad anodd iawn i blant eraill."

Dywedodd pob ysgol a holwyd mai **lles teimladol** y plentyn yw'r prif anhawster o ganlyniad i symud yn aml a chael eu traed tanynt bob tro y byddan nhw'n dechrau mewn ysgol newydd. Roedd yr ysgolion wedi gweld y gallai fod yn anodd i blant milwyr ddysgu yn ôl eu galluoedd wrth ymsefydlu mewn lle newydd a cheisio hel ffrindiau. Byddai'n arbennig o anodd i blentyn oedd wedi symud sawl gwaith ac roedd yr ysgolion wedi gweld y gallai plant o'r fath fod yn anhyderus a'i chael yn anodd denu ffrindiau. Adnabuwyd rhai disgyblion yn blant unig oedd yn gyndyn o hel ffrindiau. At hynny, daeth i'r amlwg y gallai'r broblem effeithio ar blant lleol pe bai eu ffrindiau o blant milwyr yn gadael yr ysgol.

"Canlyniad symud yn aml yw bywyd ansefydlog a allai fynnu cyfnod hwy i gael eich traed chi tanoch."

Gallai lles teimladol plentyn fod yn broblem pe bai ei dad neu ei fam yn gwasanaethu dramor. Pe bai plentyn yn gofidio am ddiogelwch rhiant neu pe bai bywyd teuluol yn achosi straen, fe allai hynny effeithio ar ei allu i ddysgu.

"Bydd anawsterau cymdeithasol a theimladol pan fo'r tad, y fam neu'r ddau riant yn absennol. Felly, pan fo'r rhieni mewn rhyfel, mae'n anodd ymdopi â hynny."

Dywedodd pob ysgol a holwyd mai materion teimladol o'r fath oedd yr anawsterau mwyaf fyddai'n effeithio ar ddisgyblion ac athrawon. Dywedodd rhai ysgolion y gallai hynny arwain at anawsterau ymddygiadol weithiau, hefyd.

Anhawster arall nododd yr ysgolion oedd tuedd i **golli dysgu neu ddysgu'r un peth sawl gwaith**. Gallai diffyg parhad yn y dysgu ddigwydd lle roedd cwricwlwm a bwrdd arholi gwahanol gan yr ysgol flaenorol neu lle roedd yr ysgol flaenorol wedi cyflwyno rhai pethau ar adegau gwahanol. O ganlyniad, gallai plentyn ddysgu modiwl eto a cholli modiwl arall yn llwyr. Cydnabu rhai ysgolion y byddai hynny'n arbennig o bwysig i ddisgyblion Blwyddyn 10 yn ogystal â'r ffaith y byddai plant yn cymathu'n arafach yn yr ysgol o ganlyniad i orfod ymaddasu i amserlen newydd yn ystod Cyfnod Allweddol 3 neu 4. Dywedodd rhai ysgolion y gallai hynny achosi anawsterau pe bai plentyn wedi dod o ysgol yn Lloegr. Mae trefn yr addysg yno yn wahanol i un Cymru ac fe fyddai'n anodd iawn trosglwyddo gwaith o fwrdd arholi gwahanol. Soniodd un ysgol am blant oedd wedi dod o ysgol yn yr Alban lle nad oes dosbarth derbyn. Felly, bydden nhw ar ei hôl hi ym Mlwyddyn 1.

Anhawster arall mewn tair ysgol oedd asesu a oedd **anghenion addysgol arbennig** ar blentyn. Fe ddywedodd yr ysgolion uwchradd a chynradd hynny y byddai statws y plentyn o ran anghenion o'r fath yn aneglur ar ôl symud ac y byddai angen rhagor o amser i'r plentyn gael ei draed tano yn yr ysgol newydd o ganlyniad. Dywedwyd na fyddai anghenion rhai'n cael eu nodi o gwbl pan fyddai angen symud yn aml, ac y byddai proses llunio datganiad y plentyn ar chwâl o'r herwydd.

Anawsterau **ieithyddol** a nodwyd gan ysgolion hefyd, gan nad Saesneg yw mamiaith plant mewn rhai ysgolion. Dywedodd un ysgol fod y Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 30% o blant milwyr yno.

Canfyddiadau

Ar ben hynny, byddai rhaid i blant oedd newydd symud i Gymru ddechrau **dysgu Cymraeg** heb unrhyw brofiad o'r iaith o gwbl. Roedd rhai ysgolion o'r farn y byddai hynny'n faich ychwanegol i blentyn nad oedd eisiau'r iaith arno. Gallai'r plentyn brofi straen o ganlyniad i orfod dysgu iaith o'r newydd gan y byddai ar **"waelod y dosbarth"**.

Dywedodd rhai ysgolion y gallai fod yn anodd i blant milwyr gymdeithasu ac **ymdoddi y tu allan i wersyll milwrol**. Adnabuwyd hynny ymhlith plant milwyr oedd wedi byw ar safle canolfan filwrol ac oedd wedi aros yno i tu allan i oriau'r ysgol fel na fydden nhw'n gyfarwydd â chymdeithasu â'u ffrindiau yn eu hamser rhydd.

Anawsterau allai godi yn yr ysgolion lle mae plant milwyr

Mater o bwys i'r ysgolion oedd **faint o rybudd** gâi athro bob tro y byddai plant yn cyrraedd neu'n ymadael – dim ond diwrnod mewn rhai achosion ond ychydig o wythnosau ar gyfartaledd. Felly, byddai'n anodd iawn cynllunio ar gyfer y plentyn. Nodwyd bod athrawon dosbarth yn ei chael yn anodd asesu galluoedd plentyn newydd a rhoi gwaith addas iddo ac y byddai'r broses honno yn mynnu tipyn o amser. Byddai angen rhagor o adnoddau a gwaith papur, hefyd. Cydnabu un o'r ysgolion y byddai problem debyg pan fo plant yn gadael yr ysgol.

"Daw'r plant i mewn a dweud mai dyma eu diwrnod olaf yn yr ysgol – a ninnau heb wybod hynny. Rhaid inni ymholi ble maen nhw'n mynd a chasglu'r cofnodion. Bydd hynny'n anodd weithiau..."

Anhawster arall i'r athrawon oedd **cyfathrebu ymhlith ysgolion** am y plentyn. Roedden nhw o'r farn nad oedd y cyfathrebu'n dda weithiau, yn arbennig o ymholi am statws anghenion addysgol arbennig a phroffil academaidd sylfaenol plentyn. Pe bai digon o wybodaeth am blentyn ar gael ymlaen llaw – megis faint roedd wedi'i ddysgu ac a oedd anghenion addysgol arbennig arno – fe allai ysgolion baratoi'n well ar ei gyfer a gofalu y byddai yn y dosbarth priodol yn syth. Roedd un ysgol o'r farn y byddai hynny o bwys i blentyn gan na fyddai gwybodaeth am ei allu fod yno adeg ei ddechrau yn yr ysgol. Gallai fod effaith ar hyder plentyn pe bai angen ei symud i ddsbarth is wedyn. Cydnabu'r ysgolion na fyddai modd cyflwyno'r wybodaeth mewn pryd weithiau achos na fyddai'r rhieni'n cael llawer o rybudd am symud gan amlaf. Dywedodd yr ysgolion y byddai rhaid gwella trefniadau rhannu gwybodaeth. Roedd un ysgol yn cynnal arbrawf 'proffil gwybodaeth am ddisgybl' i geisio gofalu y byddai'r wybodaeth i gyd yn cael ei throsglwyddo gyda phlentyn wrth symud i ysgol newydd. Roedd ysgol arall wedi dechrau olrhain data am blant filwyr trwy eu nodi'n garfan fregus, gan roi adroddiadau am eu cyflawniad bob tymor. Roedd un ysgol wedi rhoi rhif unigryw i bob disgybl ac anfon yr holl wybodaeth berthnasol gyda phlentyn a fyddai'n symud.

"Ar les y milwr y bydd Gweinyddiaeth yr Amddiffyn yn tueddu i ganolbwyntio wrth gwrs, nid ar les ei deulu."

"Bu rhaid defnyddio trefniadau diogelu plant weithiau dros y blynyddoedd, ac mae hynny'n anodd achos bod y drefn a'r meddylfryd yn wahanol."

Dywedwyd y gallai fod yn anodd i rai plant ddysgu yng Nghymru achos bod **meddylfryd y dysgu** yma yn hollol wahanol. Cydnabuwyd bod Cyfnod y Sylfaen (dysgu trwy chwarae) yn wahanol i ffyrdd traddodiadol o ddysgu. Roedd yr ysgolion wedi gweld y gallai hynny beri anawsterau i blant a rhieni. Gan fod dulliau dysgu a disgyblu'n wahanol mewn gwahanol wledydd, y farn oedd y byddai hynny'n drysu plant a rhieni.

Canfyddiadau

Beth bynnag fo'r broblem, roedd yn anodd i'r ysgolion eu datrys gan **"y bydd plentyn wedi symud eto erbyn dod i'w adnabod yn dda."** Roedd ysgolion o'r farn bod plant milwyr yn agored i niwed ac y dylid cydnabod hynny yr un fath â phlentyn ac arno anghenion addysgol arbennig, plentyn o dan ofal ac un a chanddo hawl i fynnu pryduau ysgol yn rhad ac am ddim. Eu barn nhw oedd bod Gweinyddiaeth yr Amddiffyn yn tueddu i ganolbwytio ar les y milwr, nid ei deulu o reidrwydd.

"Fy marn i yw y bydd llwyddiant yn yr ysgol yn dibynnu ar feithrin perthynas ac ymddiried ac adnabod rhywun sy'n eich adnabod chi."

Ddywedodd mo'r un o'r ysgolion a holwyd fod unrhyw wahaniaeth rhwng problemau'r plant ni waeth a oedd eu rhieni yn y fyddin, y llynges neu'r awyrlu.

Anawsterau y gallai ysgolion cynradd/uwchradd eu hwynebu

Roedd rhai ysgolion o'r farn bod y problemau'n berthnasol i ysgolion uwchradd, yn bennaf. Yn arbennig pan fo ansicrwydd am allu disgybl sy'n dechrau mewn ysgol newydd gan y byddai'n anodd iawn dewis dosbarth priodol yn y lle cyntaf. Byddai problemau tebyg wrth ddechrau mewn ysgol uwchradd ac iddi gwrícwlwm neu fwrdd arholi gwahanol. Fe ddywedwyd y byddai'n anos i ddisgybl ddechrau dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol uwchradd, hefyd.

Anawsterau penodol i ysgolion unigol

Nododd rhai ysgolion bryderon nad oedden nhw'n gyffredin i bob un megis 'lwfans ysgol oriau dydd' i alluogi plant milwyr i fynychu ysgolion Saesneg annibynnol lle na fydden nhw'n ymdoddi ymhlith trigolion y fro.

"Mae'n effeithio ar yr ysgol am fod plant milwyr yn dechrau yn y feithrinfa ac yn trosglwyddo wedyn i ysgol breifat ar ôl cyrraedd dosbarth derbyn. Ar ben hynny, mae teuluoedd milwrol yn ymwneud â theuluoedd lleol yn llai achos bod rhagor yn dewis addysg breifat. Felly, mae llai o famau'n cwrdd wrth borth yr ysgol ac ati."

Codwyd pryder arall ynglŷn â theuluoedd milwyr oedd wedi symud i ardal lle roedd yr unig ysgol uwchradd ar gael yn destun camau arbennig.

Canfyddiadau

Cymorth i blant milwyr

Yn y rhan fwyaf o ysgolion a holwyd, doedd dim **rôl benodol** ar gyfer plant milwyr. Roedd cymorth ychwanegol ar gael yn ôl yr angen ym meysydd rhifedd a llythrennedd – naill ai fesul grŵp neu'n unigol.

Dywedodd un ysgol gynradd fod ynnddi gynorthwywr dysgu fyddai'n cyflawni rôl swyddog lles bob wythnos yn ystod dau brynhawn oedd wedi'u neilltuo ar gyfer plant milwyr. Roedd hyfforddiant mewn ysgol gynradd arall wedi bod o fudd, hefyd. Soniodd un ysgol uwchradd am weithiwr fyddai'n cydlynu'r holl wybodaeth am blant milwyr o ysgolion cynradd ei dalgylch, a dywedodd rhai ysgolion fod 'swyddog cynorthwyo teuluoedd milwyr' yn ddefnyddiol iawn, hefyd.

Roedd Gweinyddiaeth yr Amddiffyn wedi rhoi i rai ysgolion **grantiau** ar gyfer cynorthwywr dysgu a chanddynt fedrau ieithyddol penodol a allai drin a thrafod materion ieithyddol. Dywedodd un ysgol ei bod wedi cael grant fel y gallai gyflogi cynorthwywr dysgu fyddai'n cynnig cymorth personol ar gyfer medrau sylfaenol a llythrennedd. Roedd rhai ysgolion eraill yn ariannu rôl swyddog lles (cynorthwywr dysgu) trwy eu cyllidebau eu hunain.

"Mae'r ariannu wedi bod yn wych yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae wedi bod o gymorth mawr i ni."

Dywedodd rhai ysgolion fod **cyfathrebu a chysylltiadau da â rhieni'r plant** yn ddefnyddiol iawn, hefyd. Roedd un ysgol o'r farn bod penodi milwr o riant yn un o aelodau corff llywodraethu'r ysgol yn ffordd werthfawr iawn o gadw golwg ar anghenion plant milwyr a chynrychioli'r plant hynny. Fe ddywedodd ysgol arall ei bod wedi sefydlu 'fforwm milwyr o rieni' i wella'r cyfathrebu. Defnyddir sesiynau galw heibio bob wythnos hefyd, i alluogi rhieni i drafod unrhyw bryderon, yn ogystal â gweithdai i deuluoedd ac ambell brynhawn agored i rieni. Roedd un ysgol wedi sefydlu rhaglen ar gyfer plant milwyr fel y gallai 'swyddog cynorthwyo teuluoedd milwyr' roi'r diweddaraf yn fynych i'r rhieni.

Cydnabuwyd bod cymorth ynglŷn â **chyfathrebu â phlant milwyr** yn bwysig, hefyd. Dywedodd pump o'r ysgolion a holwyd eu bod wedi cyflwyno 'cyfaill arbennig' – trefn cynorthwyo cyfoedion ar gyfer plant oedd newydd ddod i'r ysgol yn ogystal â gofyn i rai yn y chweched dosbarth fod yn diwtoriaid i ddisgyblion iau. Roedd sesiynau mentora ychwanegol ar gael i blant milwyr ar ôl nodi eu hanghenion trwy brofion y dull adolygu gwladol ynglŷn ag ymddygiad a phresenoldeb. Roedd un ysgol wedi sefydlu fforwm i blant milwyr, hefyd. Dywedodd ysgol arall y byddai ymgynefino arbennig i blant milwyr i'w helpu i ymdoddi yn ogystal â helpu'r staff i nodi unrhyw fylchau yn y dysgu. Soniodd ysgolion am helpu plant milwyr fyddai'n symud i ysgol arall trwy ymweld â'r ysgol honno gyda nhw. Enghraifft arall oedd ysgol fyddai'n anfon disgyblion i wersyll awyrlu'r Dyffryn trwy gymorth Ymddiriedolaeth John Egging i'w helpu i feithrin medrau byw.

Soniodd yr ysgolion am angen **cydlynu rhwng plant milwyr a phlant lleol**, hefyd. Roedd llawer o ysgolion o'r farn na hoffon nhw neilltuo plant milwr ac y byddai'n anodd cynnig cymorth arbennig iddyn nhw o ganlyniad. Ar y llaw arall, fe fyddai rhai ysgolion yn cysylltu â swyddog lles y gatrawd leol. Dywedodd un ysgol ei bod wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol â Choleg y Paratoi Milwrol yng Nghaerdydd yn ogystal â chysylltiadau â swyddogion lles y gweryll lle mae'r plant yn byw. Fe fyddai staff un ysgol yn cydweithio â swyddog SSAFA (Cymdeithas y Milwyr, y Morwyr, yr Awyrywr a'r Teuluoedd) pan fyddai angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd. Mewn achosion eraill, byddai ysgolion yn mynd i achlysuron megis parêd croesawu milwyr oedd wedi dychwelyd o Affganistan, oedfa Sul y Cofio, diwrnod blynyddol chwaraeon a phartïon yn y strydoedd.

Soniodd llawer o'r ysgolion a holwyd am **adnoddau** penodol ar gyfer plant milwyr. Byddai nifer o ysgolion cynradd yn neilltuo amser i alluogi ymgynghorwyr cymorth dysgu i drafod gwasanaethu tramor gyda disgyblion iau. Yn yr un modd, roedd rhai ysgolion wedi sefydlu clybiau i helpu plant i ysgrifennu llythyrau at eu rhieni oedd dramor. Enghraifft arall o adnoddau ar gyfer plant milwyr yw

Canfyddiadau

rhaglen 'llyfr lloffion'. Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion fod gyda nhw adnoddau i'w helpu i drin a thrafod gwasanaethu tramor. Soniodd rhai am systemau cyfrifiadurol y gallai rhieni eu defnyddio gartref i gael cymorth ychwanegol ar gyfer rhifedd a llythrennedd, hefyd. Roedd un ysgol wedi sefydlu cylch mam a'i blentyn a gwahodd teuluoedd milwyr i gymryd rhan er nad oedd llawer wedi manteisio ar y cynnig.

Roedd tair ysgol heb gynnig cymorth arbennig i blant milwyr er bod cymorth ar gael i'r plant i gyd gan gynnwys plant milwyr.

Hyfforddiant ynglŷn â phlant milwyr

Holwyd a oedd eu staff wedi'u hysbysu neu eu hyfforddi ynglŷn â materion y gallai plant milwyr eu hwynebu ym maes addysg. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion heb wybod a oedd eu staff nhw wedi'u hyfforddi'n ffurfiol o ran cymorth i blant milwyr. Dim ond un ysgol ddywedodd ei bod yn cynnig hyfforddiant i'w staff ynglŷn â materion plant milwyr. Dywedodd fod ganddi swyddog cynorthwyo teuluoedd milwyr cynt i arwain hyfforddiant am amgylchiadau teuluoedd o'r fath. Roedd yr ysgol wedi parhau â'r hyfforddiant hwnnw trwy'r cynorthwyr dysgu oedd yn gyfrifol am blant milwyr, a byddai hwnnw'n arwain hyfforddiant i'r staff i gyd unwaith y tymor. Fe ddywedodd un ysgol fod yr hyfforddiant ar gael yn Lloegr ac y byddai o gymorth pe bai rhywbeth tebyg ar gael yng Nghymru.

Roedd un ysgol o'r farn bod ganddi sawl blwyddyn o brofiad ynglŷn â dysgu plant milwyr er nad oedd hyfforddiant ffurfiol yno.

Dywedodd ysgol arall fod hyfforddiant ar gael i staff ysgolion cynradd am wasanaethu tramor trwy swyddog cynorthwyo teuluoedd plant milwyr er nad oedd hyfforddiant o'r fath ar gael i'r ysgolion uwchradd.

Cyfamod Cymunedau'r Lluoedd Arfog

Cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan Gyfamod y Lluoedd Arfog yn 2011 i amlinellu sut y byddai'r lluoedd arfog, cynghorau lleol a chymunedau ledled y Deyrnas Gyfunol yn gweithio ar y cyd er lles milwyr a'u teuluoedd. I atgyfnerthu'r cyfamod ym mhob bro, cyflwynodd gyfamodau cymunedau. Holwyd yr ysgolion faint wydden nhw am gyfamod eu bro a phwy oedd yn ei arwain yn y cyngor lleol yno. Gwyddai chwe ysgol rywfaint a deall yr amcan, sef gofalu na fyddai neb o dan anfantais ynglŷn â chael gafael ar wasanaethau o ganlyniad i fod yn y lluoedd arfog. Nid pob ysgol wyddai faterion y cyfamod yn drylwyr na phwy oedd y ddolen gyswllt yn y cyngor lleol, fodd bynnag. Yn wir, roedd un ysgol heb glywed amdano o gwbl.

Gwyddai'r ysgolion roedd y cyfamod yn hysbys iddyn nhw am reolau arbennig ar gyfer derbyn disgyblion a'r gofyn i ganiatáu gwyliau i blant milwyr, yn bennaf.

Roedd tair ysgol wedi cyflwyno ceisiadau am arian trwy gynllun grantiau'r cyfamod.

Dywedodd pum ysgol yr hoffon nhw ragor o wybodaeth neu hyfforddiant am y cyfamod.

Syniadau ar gyfer y dyfodol

Roedd pawb a holwyd o'r farn y byddai o les pe gallai ysgolion ac ynddyn nhw blant milwyr rannu gwybodaeth am yr arferion gorau. Cyflwynon nhw amryw syniadau megis astudiaethau o gamau llwyddiannus ar gyfer cymathu plant yn eu hamgylchiadau newydd a thrin a thrafod lles teimladol teuluoedd milwyr. Dywedon nhw y byddai'n ddefnyddiol pe bai cysylltiadau ag ysgolion eraill neu rwydwaith ar gyfer pobl ac arnyn nhw rôl gyffelyb hefyd, achos nad oedd gan rai ohonyn nhw wir gysylltiadau ag ysgolion eraill yng Nghymru.

Roedd rhai ysgolion o'r farn y byddai rhagor o gysylltiadau â swyddogion cymorth y lluoedd arfog yn helpu ysgolion i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer plant milwyr.

Dywedodd llawer o ysgolion y byddai cydlynedd canolog yn WLGA yn ddefnyddiol iawn i ysgolion ac ynddyn nhw blant milwyr.

Canfyddiadau

Dyweddodd rhai ysgolion mai rhagor o wybodaeth am y grantiau sydd ar gael ynghyd â meini prawf eu hawlio fyddai'r gwelliant mwyaf buddiol iddyn nhw. Nododd rhai ysgolion fod grantiau eu bod wedi'u derbyn dros y ddwy flynedd blaenorol wedi ychwanegu'n fawr at y cymorth y gallen nhw ei gynnig i blant milwyr. Dywedodd ysgolion eraill fod gwir angen staff cymorth ychwanegol i weithio gyda phlant milwyr, fodd bynnag.

Soniodd rhai ysgolion am angen hel sylwadau'r rhieni i gael adborth am y cymorth oedd ar gael i blant milwyr yn yr ysgol, yn ogystal â'r adnoddau fyddai'n ddefnyddiol yn eu barn nhw. Soniodd un ysgol am sefydlu fforwm rhieni i'r perwyl hwnnw. Fe atebodd ysgol arall y byddai diddordeb ganddi mewn hyfforddiant arferion adferol³ i wella cysylltiadau yn yr ysgol.

Hoffai pob ysgol glywed am y datblygiadau a'r cymorth allai fod ar gael o ganlyniad i'r ymchwil hon. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod cynnig WLGA i lunio disgen ar gyfer staff a disgyblion a threfnu hyfforddiant cyfnewid medrau ymhlith ysgolion yn werthfawr, hefyd.

³ Hyfforddiant arferion adferol – diben hyfforddiant o'r fath yw helpu pobl i ddeall syniadau adferol yn drylwyr a dysgu amryw strategaethau effeithiol i'w defnyddio mewn ysgolion a threfniadau gofal fel ei gilydd.

Un o brif ganfyddiadau'r ymchwil yw bod gan y saith ysgol a holwyd ffyrdd gwahanol o drin a thrafod plant milwyr.

Canfyddiadau allweddol eraill:

- Mae rhai ysgolion yn gyndyn o **neilltuo** plant milwyr ac o'r farn nad yw'r rhieni o blaid hynny, chwaith. Felly, does gyda nhw brosesau na chymorth penodol ar gyfer plant milwyr. Byddai'n well gyda nhw ganolbwyntio ar gymathu plentyn mor gyflym ag y bo modd.
 - **"Hoffen ni gyfleodd i gymathu milwyr a'u teuluoedd yn y fro yn hytrach na charfanau ar wahân."**
 - **"Un teulu mawr ydyn ni... dydw i ddim am gadw plant milwyr ar wahân na pheri iddyn nhw deimlo yn wahanol."**

Ar y llaw arall, roedd ysgolion eraill yn gryf o'r farn y dylid ystyried y plant yn **garfan fregus** a chynnig y cymorth a fyddai'n eu galluogi i fanteisio ar yr un cyfleoedd addysgol oedd ar gael i blant lleol.

 - **"Rhaid trin a thrafod plant milwyr a'u hanghenion penodol ychydig yn wahanol, weithiau."**
- Does dim gweithdrefn ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi plant milwyr trwy PLASC (cyfrifiad blynyddol lefel disgyblion yn yr ysgolion). Mae gan rai ysgolion eu ffyrdd anffurfiol o gyfrif plant milwyr ond mae rhai ysgolion o'r farn y dylai pob cyngor lleol gynnwys blwch ticio ar **ffurflen y derbyn disgyblion** er mwyn **cofnodi** nifer plant milwyr.
 - Mae pob ysgol yn cydnabod yr amryw anawsterau teimladol ac ymarferol i blant milwyr. Felly, byddai'n bwysig eu helpu trwy'r broses. Dywedodd pob ysgol y byddai'n haws pontio pe bai'r **arferion a'r syniadau gorau** yn cael eu lledaenu.
 - Roedd yn amlwg bod ysgolion o'r farn y byddai'n hanfodol **cyfathrebu** â'i gilydd i ofalu y gallai plant fanteisio ar y cymorth priodol ac nad oedden nhw wedi cyfathrebu'n ddigonol bob amser.
 - Mae gan bob un o 22 gyngor lleol y wlad **Gyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog** er nad yw pawb ledled Cymru yn deall y diben na'r defnydd yn llwyr. Hoffai'r rhan fwyaf o ysgolion ragor o wybodaeth a hyfforddiant yn y maes hwn, fodd bynnag.
 - Dywedodd llawer o ysgolion y byddai'r gofyn i blant milwyr ddysgu'r **Gymraeg** achosi pryder i'r disgybl a'r rhieni fel ei gilydd a bod angen rhagor o gymorth i drin a thrafod y mater.
 - Er gwaethaf ymdrechion i gymathu teuluoedd ym mhob cymuned, roedd yr ysgolion o'r farn mai proses hirfaith fyddai hynny ac na fyddai'n llwyddo bob amser.

Mae hyn oll yn dangos yn eglur fod angen rhagor o wybodaeth a chymorth yn y maes hwn.

Atodiad A – cwestiynau holi

Dyma grynodedb o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd wrth holi cynrychiolwyr ysgolion dros y ffôn. Nid yr union eiriau a ddefnyddiwyd bob tro, fodd bynnag.

Niferoedd

Ydych chi'n gwybod a oes plant milwyr parhaol, hen filwyr neu filwyr rhan-amser yn eich ysgol? Os felly, faint sydd yno?

Os felly, sut rydych chi'n gwybod hynny?

Ydych chi'n cofnodi'r wybodaeth? Os felly, sut?

Ydy'r awdurdod lleol yn ei nodi ar ffurflenni derbyn/sustem rheoli gwybodaeth?

Ydych chi o'r farn y byddai o les i'r ysgol a'r ardal pe bai disgwyl i gasglu gwybodaeth o'r fath bob amser?

Beth fyddai'r anawsterau ynglŷn â chofnodi gwybodaeth o'r fath yn yr ysgol?

Os felly, ydych chi'n gwybod a drosglwyddwyd unrhyw rai i'r ysgol neu i ffwrdd yn ystod tymor?

Ymwybyddiaeth a chymorth

Ydych chi'n gwybod am yr anawsterau y gallai plant milwyr eu hwynebu yn yr ysgol?

Ydych chi'n cynnig cymorth i blant milwyr yn eich ysgol? Os felly, pa fath?

Ydy'ch staff wedi'u hysbysu neu eu hyfforddi am anawsterau y gallai plant milwyr eu hwynebu. Os felly, pa fath?

Ydy Cyfamod Cymunedau'r Lluoedd Arfog yn hysbys i chi neu'ch staff?

Ydych chi'n gwybod pwy sy'n arwain materion y cyfamod yn eich awdurdod lleol?

Ydy'ch staff wedi'u hysbysu neu eu hyfforddi ynglŷn â Chyfamod Cymunedau'r Lluoedd Arfog?

Fyddai diddordeb gyda chi a'ch staff mewn rhagor o hyfforddiant neu wybodaeth yn y maes hwn?

Hoffech chi gyflwyno unrhyw syniadau allai fod o gymorth i ysgolion o ganlyniad i'r prosiect hwn?

Mae'r Uned Ddata yn perthyn i fyd llywodraeth leol Cymru ac rydyn ni wedi meithrin perthynas, ymddiried a chysylltiadau uniongyrchol â'r byd hwnnw dros gyfnod maith. Rydyn ni'n helpu i gynnal yr ymdrech i wella ers blynyddoedd lawer trwy raglenni a gwasanaethau sydd wedi'u llunio ar gyfer llywodraeth leol. Mae llawer o'r rheiny wedi'u defnyddio i helpu cyrff cyhoeddus a phreifat eraill i wella, hefyd.

Rydyn ni wedi llunio amrywiaeth o wasanaethau arbenigol i'ch helpu i ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd a'i defnyddio'n effeithiol.

Cewch chi ragor trwy gyrchu www.dataunitwales.gov.uk neu ffonio **029 2090 9500**.